

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis
Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

---

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 29)
  
- 2 Deisebau newydd**
  - 2.1 P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig**  
(Tudalennau 30 – 36)
  - 2.2 P-05-850 Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4**  
(Tudalennau 37 – 51)
  
- 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**  
  
**lechyd**
  - 3.1 P-05-736 Darparu Gwasanaethau lechyd Meddwl Mwy Hygyrch**  
(Tudalennau 52 – 57)
  - 3.2 P-05-751 Cydnabod achosion o Ddieithrio Plentyn oddi wrth Riant**  
(Tudalennau 58 – 60)
  - 3.3 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys**  
(Tudalennau 61 – 65)
  - 3.4 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru**  
(Tudalennau 66 – 69)



**3.5 P-05-826 Mae sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg!**

(Tudalennau 70 – 73)

## **Yr Amgylchedd**

**3.6 P-05-773 Peidiwch â Llenwi Safleoedd Tirlenwi!**

(Tudalennau 74 – 75)

**3.7 P-05-779 Sganio gorfodol gan gynghorau am ficrosglodion mewn anifeiliaid anwes**

(Tudalennau 76 – 79)

**3.8 P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!**

(Tudalennau 80 – 83)

**3.9 P-05-837 Ynni Gwyrdd er Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru**

(Tudalennau 84 – 93)

## **Economi a Thrafnidiaeth**

**3.10 P-05-823 Gostwng y terfyn cyflymder ar yr A487 ym Mhenparcau**

(Tudalennau 94 – 96)

**3.11 P-05-833 Gwella gwasanaethau rheilffordd i Gas-gwent**

(Tudalennau 97 – 99)

## **4 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor**

**4.1 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-Y Fenni**

(Tudalennau 100 – 101)

## **5 Papur i'w nodi**

**5.1 P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrucasau yng Nghymru**

(Tudalen 102)

Papur i'w nodi: Gohebiaeth – Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at y Cadeirydd

- 6 Sesiwn Dystiolaeth – P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr**  
(09:45) (Tudalennau 103 – 124)  
Cyfoeth Naturiol Cymru:

John Hogg – Pennaeth Gweithrediadau, Canol De Cymru  
Tim England–Noddwr Prosiect  
Gavin Jones – Rheolwr Prosiect

- 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 8 a 9**

- 8 Trafodaeth am Sesiwn Dystiolaeth Flaenorol – P-05-801 Rhaid achub y coed a'r tir yng Ngerddi Melin y Rhath a Nant y Rhath cyn iddi fynd yn rhy hwyr**

- 9 Deisebau gyda thros 5,000 o Lofnodion**  
(Tudalennau 125 – 128)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

**P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tereza Tothova, ar ôl casglu 149 o lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried creu ffynhonnau dŵr a'u rhoi yng nghanol dinasoedd a threfi. Prif ddiben y cam gweithredu hwn fyddai roi diwedd ar wastraff plastig. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y poteli plastig untro yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac oherwydd y broses ailgylchu araf, mae'n llygru'r amgylchedd, gan niweidio bywyd y môr yn arbennig.

Mae llawer o bobl yn ceisio byw yn iach, gan gynnwys yfed o leiaf 2 litr o ddŵr bob dydd. Felly, mae poteli dŵr aml dro wedi dod yn boblogaidd a defnyddiol iawn i helpu pobl i yfed digon o ddŵr drwy'r dydd. Byddai rhoi ffynnon ddŵr yng nghanol dinasoedd neu mewn rhannau eraill o ddinasoedd a threfi (canolfannau siopa, canolfannau chwaraeon, colegau, canolfannau diwylliannol ac ati) yn helpu i sicrhau bod dŵr yfed ar gael trwy'r dydd. Byddai'r ffynhonnau dŵr hyn hefyd yn cyflenwi dŵr yfed i bobl ddi-gartref.

I gefnogi'r economi leol yng Nghymru, gellid defnyddio cwmnïau dŵr mwynol Cymru ar gyfer cyflenwi'r ffynhonnau dŵr.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

## P-05-847 Ffynhonnau Dŵr Cyhoeddus

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2018  
Petitions Committee | 27 November 2018

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-847

Teitl y ddeiseb: Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi yn Ne Cymru er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried creu ffynhonnau dŵr a'u rhoi yng nghanol dinasoedd a threfi yn Ne Cymru. Prif ddiben y cam gweithredu hwn fyddai roi diwedd ar wastraff plastig. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y poteli plastig untro yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac oherwydd y broses ailgylchu araf, mae'n llygru'r amgylchedd, gan niweidio bywyd y môr yn arbennig.

Mae llawer o bobl yn ceisio byw yn iach, gan gynnwys yfed o leiaf 2 litr o ddŵr bob dydd. Felly, mae poteli dŵr aml dro wedi dod yn boblogaidd a defnyddiol iawn i helpu pobl i yfed digon o ddŵr drwy'r dydd. Byddai rhoi ffynnon ddŵr yng nghanol dinasoedd neu mewn rhannau eraill o ddinasoedd a threfi (canolfannau siopa, canolfannau chwaraeon, colegau, canolfannau diwylliannol ac ati) yn Ne Cymru yn helpu i sicrhau bod dŵr yfed ar gael trwy'r dydd. Byddai'r ffynhonnau dŵr hyn hefyd yn cyflenwi dŵr yfed i bobl ddigartref. I gefnogi'r economi leol yng Nghymru, gellid defnyddio cwmnïau dŵr mwynol Cymru ar gyfer cyflenwi'r ffynhonnau dŵr.

### Y cefndir

Mae adfywio ffynhonnau dŵr hanesyddol, gosod rhai newydd a chodi ymwybyddiaeth o ddŵr sydd ar gael i'r cyhoedd yn prysur ennill momentwm fel rhan o'r gwaith o leihau gwastraff plastig o'r sbwriel sy'n gysylltiedig â diodydd.

Yn ôl [gwaith ymchwil](#) i sbwriel sy'n gysylltiedig â diodydd a wnaed gan [Cadwch Gymru'n Daclus](#) yn 2015:

- Mae 18 biliwn o boteli plastig yn cael eu defnyddio yn y DU bob blwyddyn; ac
- Mae 38 miliwn o boteli plastig yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi bob dydd yn y DU.

Cyhoeddodd [Keep Britain Tidy](#), mewn partneriaeth â [BRITA](#), adroddiad ymchwil ym mis Ebrill 2017, sef [Understanding provision, usage and perceptions of free drinking water to the public in the UK](#). Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn dangos:

- Bod gofyniad cyfreithiol i safleoedd trwyddedig ddarparu dŵr yfed am ddim i gwsmeriaid ar gais (ond gallant godi pris am ddefnyddio gwydr neu am y gwasanaeth o ddarparu'r dŵr) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (nid oes deddfwriaeth o'r fath yng Ngogledd Iwerddon); ac
- Ar hyn o bryd, mae tri chynllun dŵr cymunedol sydd â'r amcan o ddarparu mwy o opsiynau dŵr yfed am ddim i'r cyhoedd gyda golwg ar leihau'r defnydd a wneir o boteli dŵr. Yn y cynlluniau hyn, darperir dŵr am ddim yn bennaf gan fusnesau bwyd a/neu ddiod lleol, yn enwedig busnesau annibynnol bach. Dyma'r cynlluniau dŵr cymunedol a nodwyd:
  - ymgyrch [Refill](#), a reolir gan yr elusen amgylcheddol City to Sea;
  - [Tapwater.org](#); a
  - [GiveMeTap!](#) a'r ymgyrch gysylltiedig [#MindTheTap](#).

Cyhoeddodd Keep Britain Tidy adroddiad pellach ym mis Ebrill 2018, [Water, Water, Everywhere: Moving from awareness to action on single-use plastic bottles](#) (PDF 570KB). Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad oedd bod:

- tua wyth o bob 10 (78 y cant) o bobl yn credu y dylai fod mwy o ddŵr tap ar gael am ddim, er enghraifft mwy o ffynhonnau dwr ac adeiladau sy'n cynnig dŵr tap am ddim.

Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adroddiad i annog mwy o bobl i ddefnyddio poteli dŵr y gellid eu hail-lenwi. Roedd y rhain yn cynnwys:

- ystyried sut y gellir creu darpariaeth newydd a gwneud y ddarpariaeth bresennol yn fwy gweladwy drwy fwy o waith hyrwyddo. Mae cynlluniau fel Refill a GiveMeTap! yn gyfle i ddefnyddio'r adeiladau a'r seilwaith presennol i gynnig dŵr yfed am ddim heb fod angen gosod a chynnal ffynhonnau dŵr neu dapiau newydd; a
- chodi ymwybyddiaeth o unrhyw ffynhonnau neu beiriannau cyflenwi dŵr a ddarperir.

Yn y [datganiad i'r wasg](#) yn cyd-fynd â'r adroddiad, dywedodd Prif Weithredwr Keep Britain Tidy, Allison Ogden-Newton:

Too many people still find it challenging to fill up on the go, while many more are still embarrassed to ask for tap, worried about the safety of water fountains, or just unwilling to go the extra mile and carry around a reusable bottle. We've simply got to get to a situation where topping up in glass or refillable bottle is the norm.

## Camau gweithredu yn Llundain

Ar 13 Awst 2018 [cyhoeddodd](#) Maer Llundain gynllun drafft newydd yn Llundain. Mae'r cynllun yn galw ar awdurdodau lleol i nodi lleoliadau priodol ar gyfer ffynhonnau dŵr yn ystod y broses gynllunio. Mae'n dweud:

The provision of accessible free drinking water fountains helps improve public health, reduces waste from single-use plastic bottles and supports the circular economy through the use of reusable water

bottles. Free drinking water fountains that can refill water bottles as well as be drunk from should be provided in appropriate locations in new or redeveloped public realm.

Nodwyd mewn [adroddiad gan y BBC](#) bod y cynlluniau'n rhan o gynllun gwerth £750,000 i leihau gwastraff plastig ac yn rhan o uchelgais y Maer i sicrhau erbyn 2026 na chaiff unrhyw wastraff bioddiraddadwy neu wastraff y gellir ei ailgylchu ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Mae [adroddiadau diweddar](#) yn dangos bod y ffynhonnau dwr sydd wedi'u gosod fel rhan o'r cynlluniau hyd yma yn llwyddiannus:

According to the team behind the installations, more than 8,000 litres of water have been dispensed in under a month from two drinking fountains installed at Liverpool Street Station – equal to 16,000 standard bottles of water – while another fountain, installed off Carnaby Street in March, has been used more than 10,000 times a month since tracking began in early June.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 7 Mai 2018, [cyhoeddodd](#) Gweinidog yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC, gynlluniau i weithio gyda [City to Sea](#) i ddatblygu [cynllun ail-lenwi i Gymru](#) a sicrhau mai hi yw 'Cenedl Ail-lenwi' gyntaf y DU. Dywedodd:

...bydd gwaith yn dechrau i drefnu bod dŵr yfed ar gael yn fwy hwylus mewn mannau cyhoeddus ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda City to Sea ar ddatblygu ymgyrch ail-lenwi i Gymru, a bydd hefyd yn cydweithio'n agos â chwmnïau dŵr yng Nghymru a chyda'n busnesau, ein helusennau a'n digwyddiadau mawr. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys ymgyrch i newid ymddygiad er mwyn helpu pobl i weld gwerth dŵr ac i sicrhau mai dŵr tap yw'r dewis cyntaf ar gyfer torri syched.

Ar 4 Mehefin 2018 yn Ras Fôr Volvo [cyhoeddodd](#) y Gweinidog mai llwybr 870 milltir ar hyd arfordir Cymru fyddai'r lleoliad cyntaf i gyflwyno'r cynllun ail-lenwi:

Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â threfi, pentrefi a busnesau bwyd a diod i'w hannog i gynnig mannau ail-lenwi.

Bydd y rhai sy'n ymuno â'r ymgyrch hon yn weladwy i gerddwyr drwy sticeri ar ffenestri, a byddant yn ymddangos ar restr mewn ap ail-lenwi dwyieithog.

Bydd yr ap yn dangos lle mae dŵr yfed yn rhad ac am ddim ar gael i'r cyhoedd, gan ei gwneud yn haws i bobl ail-lenwi eu poteli dŵr heb orfod prynu diodydd untro eraill.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mewn ymateb i'r cyhoeddiad ynghylch y cynllun ail-lenwi yn y [Cyfarfod Llawn](#) ar 8 Mai 2018, dywedodd David Melding AC:

...am y fenter dŵr yfed a'r fenter Ail-lenwi... mae'r math hwn o gynllun, neu annog pobl i ddefnyddio poteli y gellir eu haildefnyddio a chael mannau y gallan nhw fynd iddyn nhw o amgylch y dref i'w hail-lenwi, rwy'n credu bod hynny'n ardderchog a bod hynny'n sicr yn rhan o'r ateb.

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried y deisebau a ganlyn ar hyn o bryd, sydd oll sy'n ymwneud â lleihau neu ddileu gwastraff plastig:

P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy.

P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!

P-05-822 Gwahardd gwellt plastig (wrth yfed Ilaeth) yn ein hysgolion

P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i lygredd microblastigau yn nyfrffyrdd Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Hannah Blythyn AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd  
Minister for Environment



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HB/00906/18

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

06 November 2018

Dear David

Thank you for your letter of 25 September, regarding a petition to create water fountains in the centre of cities and towns to eliminate plastic waste. The Welsh Government is currently in the process of rolling out the Refill scheme across Wales in partnership with City to Sea.

Public water fountains are required to meet stringent requirements regarding their connection and construction, and they must meet and maintain drinking water quality standards as set by regulations. This would require ongoing investment, and means that any water fountain providing a supply of drinking water must have an owner responsible for meeting the drinking water standards. Any fountain without an owner would be switched off or potentially become a risk to public health. In practice this can be costly and unreliable.

The Refill model is based on it being free for all users, and its approach is to encourage businesses and organisations to offer free refilling facilities to members of the public. In return for signing up to become a Refill location, businesses are able to boost their green credentials and receive free publicity through the Refill App and social media. To date there are over 600 Refill points across Wales which are accessible to all members of the public.

The intention behind rolling out Refill across Wales is to trigger a behaviour change, with consumers seeing tap water as a premium product in itself. The two main water companies in Wales, Dŵr Cymru Welsh Water and Hafren Dyfrdwy, are also supporting this initiative.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru)  
[Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales](mailto:Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 35

In addition to the Refill scheme Dŵr Cymru Welsh Water are looking to support this initiative by working with developers to assist them in providing suitable connection points for water fountains in new developments allowing easier maintenance should they be installed.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, reading "Hannah Blythyn". The signature is written in a cursive style with a small mark at the end.

**Hannah Blythyn AC/AM**  
Gweinidog yr Amgylchedd  
Minister for Environment

### **P-05-850 Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan CALM (Campaign Against the Levels Motorway). Mae'r ddeiseb wedi casglu 12,270 o lofnodion ar wefan e-ddeiseb arall.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rhowch y gorau i'r cynlluniau i adeiladu traffordd yr M4 ar draws harddwch Gwastatir Gwent a buddsoddwch mewn trafndiaeth gyhoeddus yn lle hynny.

#### **Pam mae hyn yn bwysig?**

Bydd y cynlluniau presennol i ymestyn traffordd yr M4 yn peryglu dyfrgwn, gwenyn prin a blodau gwyllt. Byddai'n torri ar draws fersiwn Cymru o 'Goedwig Law Amazon', Gwastatir Gwent, sy'n hafan i fywyd gwyllt. Mae angen gwella'r traffig o amgylch Casnewydd, ond byddai'n well i Gymru a'r amgylchedd pe bai Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus yn lle hynny. Os ydym eisiau gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl am opsiynau amgen yn lle traffyrdd llygredig mawr. Mae rheolydd a chyrff cyngori y Cynulliad ei hun, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Casnewydd
- Dwyrain De Cymru

## Deiseb: Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4

Y Pwyllgor Deisebau | 27 Tachwedd 2018  
Petitions Committee | 27 November 2018

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-850

Teitl y ddeiseb: Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4

Geiriad y ddeiseb:

Rhowch y gorau i'r cynlluniau i adeiladu traffordd yr M4 ar draws harddwch Gwastatir Gwent a buddsoddwch mewn trafndiaeth gyhoeddus yn lle hynny.

Pam mae hyn yn bwysig?

Bydd y cynlluniau presennol i ymestyn traffordd yr M4 yn peryglu dyfrgwn, gwenyn prin a blodau gwyllt. Byddai'n torri ar draws fersiwn Cymru o 'Goedwig Law Amazon', Gwastatir Gwent, sy'n hafan i fywyd gwyllt. Mae angen gwella'r traffig o amgylch Casnewydd, ond byddai'n well i Gymru a'r amgylchedd pe bai Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus yn lle hynny. Os ydym eisiau gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ni feddwl am opsiynau amgen yn lle traffyrdd llygredig mawr. Mae rheolydd a chyrrff cynghori y Cynulliad ei hun, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gwrthwynebu'r cynlluniau hyn.

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd Cymru ac mae'n gyfrifol am gynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith, gan gynnwys yr M4. Trafodwyd cynigion i gynyddu lle ar yr M4 o amgylch Casnewydd ers dechrau'r 1990au pan nododd Llywodraeth y DU lwybr a ffeirir, yn gyffredinol debyg i'r cynigion presennol. Er y barnwyd ei fod yn anfforddiadwy yn 2009, adfywiwyd y prosiect gan gytundeb yn 2013 rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar bwerau benthyg.

## Cynllun coridor yr M4 o amgylch Casnewydd

Yn 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Coridor yr M4 o Amgylch Casnewydd - Y Cynllun](#) gan nodi ei llwybr a ffefrir. Yn y ddogfen hon, nododd Llywodraeth Cymru gynlluniau i adeiladu rhan newydd o'r draffordd, sef y 'llwybr du' neu'r 'llwybr a ffefrir'.

Yn ogystal â chreu rhan newydd o'r draffordd – y 'llwybr du' – cynigiodd Llywodraeth Cymru ystod o fesurau ategol, gan gynnwys:

- Ailddosbarthu'r M4 bresennol rhwng Magwyr a Chas-bach;
- Cysylltiadau'r M4/M48/B4245; a
- Darparu seilwaith addas ar gyfer beicio a cherdded.

Mae [Llywodraeth Cymru](#) o'r farn mai ei chynigion o ran y 'llwybr du' a'r mesurau ategol:

yw'r ateb cynaliadwy, hirdymor i'r problemau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd presennol sy'n gysylltiedig â'r ffordd hon [a rhan hanfodol o'i] gweledigaeth am system drafnidiaeth integredig effeithiol yn Ne Cymru [yn ogystal â phrosiectau eraill megis [Metro De Cymru](#)].

Ym mis Mawrth 2015 roedd Cyfeillion y Ddaear [yn aflwyddiannus pan wnaethant herio](#) cynigion Llywodraeth Cymru.

## Gwastatir Gwent

Byddai'r llwybr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru, sef y 'llwybr du', yn croesi ardal a elwir yn Wastatir Gwent mewn sawl man. Gwastatir Gwent yw'r enw ar y cyd a roddir i nifer o wahanol [Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig](#) (SoDdGA) a leolir i'r de o Gasnewydd ac i'r gogledd i Aber Afon Hafren.

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Ddatganiad Amgylcheddol](#) yn nodi ei asesiad o'r prif effeithiau amgylcheddol a ddeuai yn sgil yr opsiwn a ffefrir, a sut y byddai'r rhain yn cael eu lliniaru. Cyhoeddwyd [crynodedb annhechnegol](#) (PDF 1.51MB) hefyd sy'n nodi bod Gwastatir Gwent:

...yn cynnwys corsydd arfordirol wedi'u hadfer gwastad ar dir isel sy'n ymestyn hyd at Aber Afon Hafren. Mae Gwastadeddau Gwent wedi'u dynodi oherwydd eu tirwedd hanesyddol a'u diddordeb ecolegol. Ar draws Gwastadeddau Gwent ceir rhwydwaith helaeth o ddraeniau dŵr croyw â lociau llanw, a elwir yn "reens" yn lleol, a ffosydd llai o faint... Y nodweddion ecolegol hyn yw'r rheswm pam mae Gwastadeddau Gwent wedi'u dynodi'n SoDdGAau. Mae Llywodraeth Cymru, yn unol â'i dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol, wedi gwneud ei gorau i gadw a gwella nodweddion y SoDdGAau yn ystod y broses o ddylunio'r Cynllun.

## Y prosiect hyd yn hyn

Yn ogystal â'r Datganiad Amgylcheddol, cyhoeddwyd nifer sylweddol o ddogfennau eraill ym mis Mawrth 2016, gan nodi cam allweddol yn y broses o gynllunio a chyflawni'r prosiect. Hefyd, cafodd 10 o arddangosfeydd cyhoeddus eu cyhoeddi, a oedd yn gyfle i aelodau o'r cyhoedd

weld y gorchmynion drafft, gwybodaeth amgylcheddol ac adroddiadau a deunyddiau cysylltiedig eraill. Mae [erthygl flaenorol gan y Gwasanaeth Ymchwil](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr adroddiadau hyn.

Yn dilyn yr arddangosfeydd cyhoeddus, ym mis Mehefin 2016, dyma a ddywedodd Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ar y pryd, [yn y Cyfarfod Llawn](#):

Mae'r holl ymatebion wedi eu hadolygu'n ofalus. Mae'n rhaid imi ystyried materion pwysig yn ofalus cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu...**Rwyf felly wedi penderfynu y dylid cynnal ymchwiliad lleol cyhoeddus.** [pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil]. Bydd arolygydd annibynnol yn adolygu'r angen am y cynllun ac yn ystyried yr holl ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Bydd yn clywed tystiolaeth ac yn archwilio'r arbenigwyr technegol yn ogystal â chlywed gan gefnogwyr a gwrthwynebwyr...fel sail i benderfyniad terfynol ynghylch pa un a ddylid bwrw ymlaen i adeiladu.

### Ymchwiliad lleol cyhoeddus

Y bwriad oedd i'r ymchwiliad lleol cyhoeddus ddechrau yn nhymor yr Hydref 2016 a chan ddisgwyl yr ymchwiliad hwnnw, nododd Llywodraeth Cymru ei datganiad achos ym mis Awst 2016. Mae [Rhan 1 \(PDF 2.23MB\)](#) o'i hachos yn nodi trosolwg a chyfiawnhad o'r cynllun. [Mae Rhannau 2 a 3 \(PDF 2MB\)](#) yn nodi crynodeb o'r gwrthwynebiadau a gafwyd ac amlinelliad o ymateb Llywodraeth Cymru.

Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet [fod yr ymchwiliad wedi'i ohirio](#) oherwydd yr angen i gwblhau'r gwaith modelu a rhagamcanu traffig diwygiedig. [Rhoddwyd diweddariad pellach ym mis Rhagfyr 2016](#), lle dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi 'edrych o'r newydd' ar y cynigion. Gwnaed hynny yn sgil y data twf traffig diwygiedig a chynigion diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer [Metro De Cymru](#), ynghyd â dyletswyddau sy'n ofynnol o dan [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod hefyd wedi edrych o'r newydd ar lwybrau amgen gan gynnwys y llwybr glas y bu cymaint o sôn amdano (ceir rhagor o wybodaeth yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn) ond roedd yn credu mai prosiect yr M4 yw'r ateb cynaliadwy tymor hir o hyd.

Dechreuodd yr ymchwiliad ar 28 Chwefror 2017 gydag archwilydd annibynnol wedi'i benodi i ystyried y dystiolaeth mewn ffordd dryloyw, deg a diduedd. Yn ei [sylwadau agoriadol](#) (PDF 205KB) i'r ymchwiliad, tynnodd yr arolygydd sylw at y nifer helaeth o ddarnau o ohebiaeth a oedd wedi dod i law yn mynegi naill ai gefnogaeth ar gyfer y 'llwybr du' neu wrthwynebiad iddo. Daeth yr ymchwiliad i ben ym mis Ebrill 2018, ac mae'r holl ddogfennau a gwybodaeth gysylltiedig [ar gael ar-lein](#).

Mae'r ymchwiliad bellach wedi dod i ben a chyflwynwyd adroddiad i Weinidogion Cymru ar ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd.

## Opsiynau amgen

Cynigiwyd nifer o ddewisiadau amgen o'r blaen yn lle opsiwn y 'llwybr du' a ffefrir gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar [gynllun drafft](#) ddiwedd 2013 a oedd yn ystyried dau 'ddewis amgen rhesymol', sef y 'llwybr coch' (ffordd ddeuol i'r de o Gasnewydd) a 'llwybr porffor' (traffordd ar hyd llwybr amgen i'r de o Gasnewydd).

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [werthusiad o ddewisiadau amgen a ystyriwyd yn ystod y broses ymgynghori](#) (PDF 2.39MB). Roedd hyn hefyd yn ystyried 'llwybr glas' amgen a fyddai'n defnyddio cyfuniad o ffordd ddsbarthu ddeheuol Casnewydd yr A48 a hen ffordd y gwaith dur ar ochr ddwyreiniol Casnewydd i greu ffordd ddeuol newydd.

Cynigiwyd y 'llwybr glas' gan y [Sefydliad Materion Cymreig](#) a'r [Athro Stuart Cole](#) mewn [Adroddiad ar y Llwybr Glas](#) (PDF 814KB) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013. Mae cefnogwyr yn dadlau y byddai hyn yn rhatach ac yn gyflymach i'w adeiladu na'r ffordd liniaru.

Fodd bynnag, roedd arfarniad Llywodraeth Cymru yn 2014 yn awgrymu na fyddai'r 'llwybr glas' yn cyflawni amcanion y cynllun, a byddai angen buddsoddiad sylweddol ac ni fyddai'n sicrhau manteision digonol.

Cyhoeddwyd '[Arfarniad o Gynigion Llwybr Glas Arall y Gwrthwynebwyr](#)' gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016, yn sgil y gwaith modelu traffig diwygiedig a oedd yn ofynnol fel yr amlinellwyd yn gynharach yn y papur briffio hwn. Daeth yr arfarniad hwn i'r casgliad a ganlyn:

The Blue Route would not address the identified transport related problems as well as the M4 Corridor around Newport Scheme... the Welsh Government is not promoting the Blue Route, which has been suggested by objectors. However, the Blue Route and the findings of this appraisal will be considered as part of the Public Local Inquiry into the Welsh Government's proposed M4 Corridor around Newport Scheme.

Roedd [datganiad agoriadol](#) (PDF, 356KB) Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad lleol cyhoeddus yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael manylion am 22 o lwybrau amgen gan wrthwynebwyr i'r opsiwn a ffefrir yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus. Trefnwyd i'r manylion am [ddewisiadau amgen y 22 o wrthwynebwyr hyn](#) (PDF, 136KB) fod ar gael fel rhan o'r ymchwiliad. Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru '[Adroddiad ar y Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr](#)' (PDF, 56.1 MB) a oedd yn ystyried pob un o'r dewisiadau amgen hyn. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud hyn a chyflwyno'r adroddiad i'r archwilydd fel rhan o'r ymchwiliad. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r effaith y byddai pob dewis amgen yn ei chael ar Wastatir Gwent.

Ym mis Medi 2018, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru [adroddiad o'r enw 'Trafnidiaeth sy'n Gymwys ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol'](#) gan gynnig dewis amgen i 'ddatrys tagfeydd o gwmpas Casnewydd' drwy fuddsoddi'r:

£1.4 biliwn a glustnodwyd ar hyn o bryd ar gyfer Llwybr Du yr M4...mewn trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol a sicrhau cyflawni pob cam o Fetro De Cymru.

Cyhoeddodd y deisebydd – [CALM \(Campaign Against the Levels Motorway\)](#) – [ddatganiad i'r wasg ym mis Medi 2018 o blaid](#) (PDF 280KB) y cynigion amgen a nodwyd yn adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth [ddatganiad ysgrifenedig ym mis Ebrill 2018](#) i gyhoeddi bod yr ymchwiliad lleol cyhoeddus wedi dod i ben. Roedd y datganiad hefyd yn ymrwmo:

i ddadl o fewn amser y Llywodraeth yn y Senedd cyn bod Gweinidogion Cymru yn cytuno ar gontractau adeiladu.

Ar 16 Hydref 2018, gofynnwyd i Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, am yr amserlen o ran gwneud penderfyniad ar y cynllun. [Dywedodd](#) :

...mae'r amserlen bresennol ar gyfer materion y Llywodraeth yn dangos bod dadl wedi'i threfnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Rhagfyr [2018].

Ar 23 Hydref 2018, gofynnwyd i Arweinydd y Tŷ unwaith eto am y ddadl ac a fydd yn bleidlais rwymol ar Lywodraeth Cymru. Wrth ateb, [dywedodd Arweinydd y Tŷ](#):

bydd y ddadl a'r bleidlais yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn penderfyniadau buddsoddi terfynol...bydd yn amser y Llywodraeth. Felly, mae'n bleidlais rwymol yn amser y Llywodraeth ar y Llywodraeth...Ac addawyd y bleidlais honno gennym—addewais i y byddem ni'n cael y bleidlais honno...yn y Cynulliad. Ac felly, byddwn yn gwneud hynny.

Mae'r llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn ategu hyn, gan ddweud mai canfyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus:

...yn ogystal â'r ddadl a'r bleidlais yr ymrwymwyd i'w cynnal yn y Senedd, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar fwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynhaliwyd nifer o ddadleuon ynghylch coridor yr M4 o amgylch Casnewydd yn y Cyfarfod Llawn. Cynhaliwyd y ddadl ddiweddaraf ym mis Chwefror 2018 pan gyflwynodd Plaid Cymru [ddadl ar ffordd liniaru arfaethedig yr M4](#).

Ym mis Mehefin 2016, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth [ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn](#) i gyhoeddi y câi'r ymchwiliad lleol cyhoeddus ei gynnal mewn perthynas â'r cynllun. Codwyd materion yn ymwneud â'r effeithiau amgylcheddol a [dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet](#) bod Llywodraeth Cymru wedi:

nodi £45 miliwn o fewn y prosiect, a gaiff ei wario ar fesurau amgylcheddol, nid yn unig i liniaru effaith y llwybr du arfaethedig, ond, yn wir, i wella'r amgylchedd.

Mae nifer o bwyllgorau'r Cynulliad hefyd wedi trafod ffordd liniaru'r M4.

Holodd y [Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig](#) Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ynglŷn â'r cynllun [yn ystod sesiwn graffu a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2018](#). Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar yr effeithiau amgylcheddol a gâi'r llwybr arfaethedig a gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r mesurau lliniaru arfaethedig. Dywedodd Ysgrifennydd Cabinet:

there are major, major initiatives that'll be taking place, indeed taking place before the road is open for use, that will improve the natural environment—for example, the reed beds, the lagoons that are going to be created, the planting of new hedgerows, new woodland...fifty per cent of the road is being constructed on brownfield sites—2 per cent, yes, on the Gwent Levels. There has to be that balance between social, environmental and economic interests. We're trying to achieve that balance as much as possible.

Trafodwyd y cynllun hefyd ym mis [Mehefin 2018](#) a mis [Gorffennaf 2018](#) gan [Bwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau](#) y Cynulliad fel rhan o'i [ymchwiliad i gyflwr y ffyrdd yng Nghymru](#).



Ein cyf/Our ref KS/03073/18

David John Rowlands AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

6 Tachwedd 2018

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynglŷn â Deiseb P-05-850 sy'n galw arnom i Amddiffyn Gwastatir Gwent ac i atal traffordd arfaethedig yr M4.

Fel y gwyddoch, aed ati yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus, a barhaodd am flwyddyn ar ei hyd, i graffu'n fanwl ar bob agwedd ar y cynigion i fynd i'r afael â'r problemau gyda thagfeydd ar yr M4 yng nghyffiniau Casnewydd. Roedd cyfle i bawb fod yn rhan o'r Ymchwiliad ac roedd yn gyfle iddynt fynegi barn o blaid neu yn erbyn y cynigion. Ar ôl i adroddiad yr Arolygwyr ddod i law, mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn cynnal y broses diwydrwydd dyladwy er mwyn adolygu'r canfyddiadau fel y bo modd penderfynu a ddylid gwneud y Gorchmynion ai peidio.

Y gwaith hwn, yn ogystal â'r ddadl a'r bleidlais yr ymrwymwyd i'w cynnal yn y Senedd, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar fwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio.

Oherwydd bod prosesau priodol yn eu lle eisoes ar gyfer ystyried safbwyntiau a chraffu ar benderfyniadau, nid yw'n ymddangos bod angen i'r Pwyllgor Deisebau ystyried y mater hwn ymhellach, nac ychwaith ei bod yn briodol iddo wneud hynny, ond wrth gwrs, eich penderfyniad chi fydd hwnnw.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael yma [www.llyw.cymru/coridor-yr-m4-o-amgylch-casnewydd](http://www.llyw.cymru/coridor-yr-m4-o-amgylch-casnewydd).

**Ken Skates AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 44**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**P-05-850 Protect the Gwent Levels and stop the proposed M4 motorway –  
Correspondence from the Petitioner to Committee, 21.11.18**

The Minister suggests that the Public Inquiry precludes any further examination of the arguments for and against the M4 Black Route. We believe, however, that the narrow remit of the PI meant that it was not adequate in itself in order to reach a consensus on the next sixty years of transport in Wales. The decision over the M4 has significance way beyond the immediate local issues of transport around Newport. An issue of this magnitude warrants as exhaustive a process of scrutiny as possible through fully informed debate by elected members of the Assembly.

We would therefore welcome an early opportunity to present our case to the Petitions Committee as part of the decision-making process within the Assembly as a whole. As well as our supporting statement, we also enclose CALM's press release issued at the end of last month when the Petition was transferred to the Assembly, and our bilingual leaflet issued earlier this year. We hope these will be useful to members of the Committee.

Best wishes,

Catherine and Rob



## CAMPAIGN AGAINST THE LEVELS MOTORWAY

[www.savethelevels.org.uk](http://www.savethelevels.org.uk) • [savethegwentlevels@gmail.com](mailto:savethegwentlevels@gmail.com)

P-05-850 - Pwyllgor Deisebau 27.11.18 / Petitions Committee 27.11.18

21<sup>st</sup> November 2018 - Response to the position of the Welsh Government Minister (Ken Skates AM) as communicated to the Petitions Committee on 6<sup>th</sup> November 2018.

The WG Minister suggests that the findings of the Public Inquiry (PI) will be sufficient for the Welsh Assembly to make its decision on the M4 Black Route. CALM believes that the PI process cannot be regarded as sufficiently objective or exhaustive. Our main reasons for stating this are as follows :

- The PI focused exclusively on a new stretch of motorway as a means of solving congestion, rather than looking even-handedly and fully at whether other transport options could meet this aim. The Welsh Government did not commission work to explore all options to tackle transport problems in South East Wales but instead relied entirely on the long-standing scheme to solve congestion by building more motorway capacity. In this sense we cannot agree with the Minister the PI 'robustly scrutinised all aspects of the proposals to address the problems of congestion on the M4.' The PI robustly scrutinised only the WG's own preferred solution.
- The Welsh Government's lawyers claimed that the Bushell principle meant that it was outside the remit of the PI to consider whether the Black Route was a wise use of government financial resources across the board. Those participating in the PI felt that it did not give proper consideration to evidence that questioned the need for a new motorway or which offered alternative approaches to transport infrastructure in general.
- Evidence given at the PI, and in particular the Welsh Government's own case, is already being superseded by new evidence. Since the PI closed, new evidence has come from several quarters to strengthen the case against the M4 Black Route. Above all, the Future Generations Commissioner for Wales, in partnership with the Centre for Transport and Society (CTS), University of the West of England, Sustrans and New Economics Foundation, published a major report in September 2018 which is highly critical of the Black Route. The report shows the Black Route would make many of the challenges facing Wales worse, including carbon emissions, physical and mental health, noise and air pollution, inequality and transport poverty. It would also contradict Wellbeing Objectives established in Local Wellbeing Plans (Cardiff, Newport and Monmouthshire). In fact the report found the case for building the Black Route relies on an assumption that time savings to individual drivers of between 2.5 and 5 minutes each day are worth **20 times more** than lowering carbon emissions, improving human health, reducing pollution and giving a fair transport deal for those on lower incomes. That's before any value is put on the unique wildlife and landscape of the Gwent Levels, and the ecosystem services it provides local people. The Commissioner proposed a package of public and active transport measures costing £578m (a quarter of the likely cost of the Black Route). This would meet the statutory wellbeing goals of the 2015 Act.
- In addition to the FGO report, the recent UN IPCC report warns that we have to halt devastating climate change by 2030. By that date and for many years to come the Black



The **Campaign Against the Levels Motorway** is an alliance of local people and organisations formed to protect the Gwent Levels from the proposed M4 Relief Road.

Route would be contributing thousands of tons of extra CO2 emissions in South Wales as the Government's own figures show. WG's only excuse - which many experts regard as highly dubious in itself - is that the M4 Black Route would become carbon neutral by 2078 i.e. in 60 years time. (This date of 2078 also assumes that the carbon gain will continue for 38 years beyond the date at which the UK Government states that petrol and diesel cars will have been phased out. This clearly makes no sense).

- Several of the recommendations in the report of the Assembly's own Economy, Infrastructure and Skills Committee in October 2018 on the State of Roads in Wales question the received wisdom on the Black Route. For example, the Committee recommends that building new roads should be a last resort, and the forthcoming Wales Transport Strategy should set a clear priority for maintaining the existing road network, mainstreaming and upgrading active travel infrastructure and prioritising access in preference to building new roads.

- There are also strong arguments emerging that point to how the Black Route would have little positive impact on the most economically disadvantaged areas of Wales, including those in the South Wales Valleys, and that some areas of South Wales would in fact be negatively affected by a new M4. South West England would instead be a major economic beneficiary.

- The costs of this project are rising on an almost daily basis and the figures used in the PI were already out of date. In 2015 the current First Minister said that the total costs would be "well under £1 billion". Under the Government's own figures this had risen to £1.3 billion by December 2017. In recent weeks it has been reported that WG civil servants have warned Welsh Ministers that **£2bn is now a minimum and the final price could rise to £2.5 billion**. In return for this colossal investment (and four or five years of disruption from construction works), peak M4 journey times around Newport would improve by an average of no more than **5 minutes**.

Until recently, a solution to congestion on the M4 has been seen as a local issue. But now it's become clear that the whole of Wales will be affected by the huge financial cost of the Black Route and that the environmental cost will reverberate across Wales and beyond. Wales has the opportunity, under the Wellbeing of Future Generations Act and the Environment Act, to ensure that on both economic and environmental grounds Wales is at the forefront of sustainable growth. The number of signatures on this petition – 12500 at the time of submission and now 15000 – testifies to the changing mood in Wales and the world.





## CAMPAIGN AGAINST THE LEVELS MOTORWAY

www.savethelevels.org.uk • savethegwentlevels@gmail.com

**PRESS RELEASE – embargoed until 00:01 am, Wednesday 31 October 2018**

### 12,000 SIGN PETITION AGAINST M4 BYPASS

The group campaigning against a £2 billion bypass through the Gwent Levels handed in a petition with over 12,000 signatories to the Welsh Assembly last week. This was 8 times the number on the petition supporting the bypass submitted by the S Wales Chamber of Commerce earlier this month.

The Petition calls on the Welsh Government to “**drop plans to construct the M4 motorway across the beautiful Gwent Levels and invest in public transport instead.**” It will now be considered by the Assembly Petitions Committee

CALM warns in the petition that “*The current plans to extend the M4 motorway would cut across the 'Amazon Rainforest' of Wales, the Gwent Levels, which is a haven for wildlife. If we want to protect the environment for future generations we need to come up with alternatives to big polluting motorways. The Assembly's own environmental regulator and advisory body, Natural Resources Wales, is against these plans.*”

Last month CALM endorsed the alternatives to the motorway recommended by the Welsh Future Generations Commissioner, Sophie Howe, which include boosting investment to ensure the Metro can improve access to jobs and leisure for the whole population in South Wales.

CALM Chair Rob Hepworth said “*Two Welsh Government expert advisory bodies are on the record in opposing the Black Route. We know Welsh Ministers have just been warned that even the estimated costs of an M4 bypass have more than doubled to over £2billion in the 3 years since 2015 when the First Minister assured the Assembly that it would be well under £1 billion. The names on the CALM petition have doubled in less than 3 weeks to over 12,000. There is now widespread public alarm about the costs and environmental damage of a bypass.*”

Catherine Linstrum (CALM) said “*For every person signing a petition in favour of the road, eight people signed the petition opposing it. That's a pretty strong sense that the public want things to change. They want smart solutions to transport, not more environmentally-damaging miles of concrete.*”

Hugh Mackay (Cycling UK) said “*It would be an utter waste of Wales investment budget which is needed for overdue projects right across our nation, including much more investment in active travel and public transport to benefit our whole population over the next 50 years.*”



Tudalen y pecyn 48

The **Campaign Against the Levels Motorway** is an alliance of local people and organisations formed to protect the Gwent Levels from the proposed M4 Relief Road and find better solutions to travel needs in south-east Wales.

Vic Warren (Vice Chair of the Campaign for the Protection of Rural Wales) added “ *The Assembly’s own cross-party Economy & Infrastructure Committee of the Welsh Assembly has now recommended that building new roads should be a last resort, and that maintaining the current road network - including active travel routes - should be the priority for a sustainable transport policy. The Government need to take the repeated advice from independent advisers and the Assembly Committee seriously and rule out the Black Route without forcing us to take the issue to Court*”.

Ian Rappel (CEO of Gwent Wildlife Trust) said “ *Even without the damage to the Gwent Levels, the rising costs and poor economic and transport case for the Black Route are persuading many people to oppose it. When the damage to priceless and irreplaceable wildlife is added, the arguments are frankly overwhelming. The Black Route is the wrong choice for wildlife and people*”

**Background:** The evidence against the Black Route has been piling up throughout 2018. CALM estimates that its final costs could top £2 billion. From this almost £200 million will be spent on repairing unnecessary damage from driving the bypass through Newport Docks.

As the Future Generations Commissioner’s report <sup>1</sup>showed last month, the Black Route is incompatible with the need to address climate change seriously. Wales’ targets to reduce carbon emissions are being missed because we have become too dependent on cars<sup>2</sup>. The United Nations Report published in early October by IPCC warned Governments that they must decide carbon emissions (to which the Black Route would add 500,000 tonnes) immediately to prevent dangerous global warming<sup>3</sup>. Last week’s report by the Assembly’s Economy, Infrastructure and Skills Committee under the Chairmanship of Russell George AM advised that “*every new road project should be subject to challenge to ensure the Well-being of Future Generations Act has been rigorously applied in the scheme.*” and recommended that “*the forthcoming Wales Transport Strategy should set a clear priority for maintaining the existing road network, mainstreaming and upgrading active travel infrastructure, and prioritising access, in preference to building new roads.*”

